

Meithrinfa Aykroyd

Gwybodaeth i Rieni

Nifer ac oedran plant a ofalir amdanynt.

Mae'r feithrinfa'n darparu gofal ar gyfer plant o dri mis i oedran ysgol, gall y feithrinfa gynnig lle i 25 o blant. (9 o dan 2 oed a 16 dros 2 oed).

Datganiad Polisi

Polisi'r Feithrinfa yw mae Cymraeg yw prif gyfrwng pob gweithgaredd, er fod y staff yn ddwyieithog, ac yn siarad a'r plant yn eu mam iaith pan fo angen. Mae'r feithrinfa hefyd yn darparu gofal i blant oed 4-11 oed trwy clwb cyn ag ar ol ysgol, ac clwb gwyliau (Clwb y Berwyn).

Cyfle Cyfartal

Yn gytun a'r polisi Cyfle Cyfartal, bydd y Feithrinfa yn sicrhau fod eich plentyn/plant yn derbyn yr un cyfle a phob plentyn arall.

Anghenion Arbennig.

Ein nod yw rhoi i bob plentyn, be bynnag fo'i anghenion, y cyfle i fanteisio ar bob gofal, ac rydym yn ymrwymo i roddi sylw i bob plentyn gydag anghenion arbennig.

Mynediad.

Rydym yn cydymffurfio ac amodau cofrestru'r AGGCC, ynglyn a'r nifer o blant a dderbyni'r a'u hoedran. Er fod y feithrinfa ar agor i'r cyhoedd, cedwir rhai llefoedd ar gyfer plant gweithwyr Aykroyd & Sons Ltd.

Oriau agor.

Llun i Gwener - 7.50a.m. - 5.30p.m. Bydd y Feithrinfa ar gau am wythnos dros Nadolig ac bob Gwyl Banc.

Gwybodaeth Cyswllt.

Fel rhieni, mae croeso i chwi ymweld a'r feithrinfa i weld y cyfleusterau sydd ar gael.

Rhif Ffon y Feithrinfa: 01678522114

Enwau cyswllt:

Person Cofrestredig: Nigel Aykroyd

Rhelowr Personel: Gareth Jones (01678) 522117

Rheolwraig: Angharad Jones (01678) 522114

Rheolwraig Cynorthwyol: Eirlys Hughes

Rheolwraig Cynorthwyol & Arweinydd Clwb y Berwyn: Ruth Roberts

Cynorthwywyr: Louisa Phillips, Rachael Lentell, Carmel Roberts, Michelle Gregory.

Cynorthwywyr rhan amser: Tina Jones, Ffion Jones, Siwan Franey, Gwenfair Aykroyd, Michelle Jones.

Gwybodaeth Staff.

Angharad Thomas. Cychwynodd ei swydd fel Rheolwraig yn 2006 ac mae ganddi ferch 7 oed ac bachgen 3 oed sydd yn mynychu'r Feithrinfa. Astudiodd BTEC National Diploma ac NVQ Lefel 4 mewn gofal plant. Graddiodd yn 2011 ar ol astudio cwrs sylfaen mewn datblygiad plant a babanod trwy Prifysgol Glyndwr, Wrecsam.

Eirlys Hughes (Rheolwraig Cynorthwyol). Graddiodd gyda B Add Anrhydedd yn 1977. Athrawes ddosbarth yn ysgolion Corris a Ffridd y Llyn cyn magu tri o blant. Bu yn athrawes lanw am rhai blynyddoedd ac yn cynorthwyo yn yr ysgol feithrin leol. Cychwynodd ar ei swydd yn y Feithrinfa yn 1999.

Ruth Roberts (Rheolwraig Cynorthwyol ac Arweinydd Clwb). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Ruth wedi astudio NVQ lefel 2 a 3 mewn Gofal Plant. Ar hyn o bryd mae'n gweithio tuag at NVQ Lefel 4 ac yn edrych ymlaen i ymgymryd mwy o gyfrifoldebau yn ei swydd. Mae gan Ruth merch 3 oed sydd yn mynychu'r feithrinfa.

Louisa Phillips (Cynorthwy-ydd). Astudiodd diploma Lefel 2 a 3 mewn Gofal Plant, ac hefyd lefel 2 mewn 'Playwork' gyda Coleg Ial, Wrecsam. Astudiodd NVQ lefel 4 tra yn ei swydd yn Meithrinfa Corwen a gorffennodd y cwrs ar ol dechrau gweithio yn Meithrinfa Aykroyd.

Michelle Gregory (Cynorthwy-ydd). Astudiodd diploma NNEB yng Ngoleg Ial, Wrecsam. Cychwynodd ei swydd yma

yn 2007. Mae ganddi dri o blant, dau sy'n mynychu ysgol gynradd leol, a plentyn iau sy'n mynychu'r feithrinfa.

Rachael Lentell (Cynorthwy-ydd). Astudiodd Rachael CACHE lefel 3 mewn Gofal ac Addysg plant yng Ngholeg Ial, Wrecsam. Mae Rachael wedi gweithio fel Cynorthwy-ydd yn Ysgol Feithrin Y Bala ac hefyd Ysgol Bro Tegid.

Staffio

Mae tim rheoli'r Feithrinfa, yn gyfrifol am apwyntio, cyflogi a di – swyddo staff y feithrinfa.

Gwnaiff y cwmni sicrhau bod holl staff a gyflogir, yn cydymffurfio a gofynion AGGCC. Fe ymdrechwn i sicrhau fod pob aelod o staff a gyflogir wedi cymhwysu mewn gofal plant, ac fod ganddynt brofiad perthnasol.

Sicrhewm y gwnaiff y staff bob ymdrech i gynorthwyo eich plentyn i setlo yn y Feithrinfa mor fuan a phosib, ac y bydd yn hapus.

Rydym yn cydnabod fod anghenion plentyn yn newid wrth iddo ddatblygu, ac rydym yn ymrwymo i sicrhau fod ein darpariaeth yn cyrraedd a'r gofynion.

Rydym yn parchu pwysigrwydd o gadw bob agwedd ym maes anghenion arbennig yn gyfrinachol.

Trefn.

Mae staff y Feithrinfa'n gweithio 'n agos a rhieni, drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o drefn y plant, a bod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo iddynt.

Gweithgareddau a gynnigir i'r plant.

Fel ein bod yn galluogi i bob plentyn ennill cymaint ac sydd yn bosibl o bob agwedd o'r meysydd dysgu, byddwn yn darparu amserlen gyda gweithgareddau a phrofiadau fydd yn hybu'r agweddau hyn:

Iaith Gymraeg

Datblygiad Corfforol

Datblygiad Creadigol.

Iaith, Llythrennedd, a Chyfathrebu.

Datblygiad Mathemategol.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol.

Dwyieithrwydd a dealltwriaeth amlddwyllianol

Mae'r Feithrinfa wedi ymuno gyda Cynllyn Cyn Ysgolion Iach Gwynedd. Yr nod yw datblygu a hybu iechyd a lles plant yn ein lleoliad. Gofynnwn am eich cydweithrediad wrth i ni datblygu'r cynllyn.

Cofrestrriad a System Casglu

Er mwyn cofrestru plentyn yn y feithrinfa, bydd rhaid cwblhau ffurflen gofrestru, hefyd rhaid llofnodi cytundeb.

Dim ond personau a enwi'r ar y ffurflen gofrestru gaiff gasglu'r plant o'r feithrinfa.

Trefn Cwyno.

Croesawn eich sylwadau i ni gael monitro a gwella ein gwasanaeth, os oes angen. Byddwn bob amser yn barod i groesawu canmoliaeth, ond os nad ydych yn fodlon gydag unrhyw agwedd o'n gwaith, dylech ddatgan hyn i'r Rheolwraig, Angharad Jones. Os nad ydych yn hapus a'r ymateb, dylech gysylltu a rheolwr Personnel Aykroyd & Sons Ltd, Gareth Jones.

Os na ellir datrys y broblem, cysylltwch a AGGCC ar 01286662300.

Pethau i ddod gyda'ch plentyn.

*Par o esgidiau glaw er mwyn gallu chwarae allan mewn tywydd gwlyb.

*Het ac eli haul yn ystod tywydd poeth.

*Clytiau (mae gennym gadachau sychu).

*Dillad sbar.

*Dwmi a thegan cysur os oes angen.

*Poteli llaeth, (Mae llaeth buwch ar gael).

*Cot neu siaced (yn dibynnu ar y tywydd).

*Atgoffir chwi bod eich plentyn yn siwr o gymeryd rhan mewn rhai gweithgareddau budr, felly awgrymwch yn garedig i beidio a'u gwisgo mewn dillad rhy dda rhag ofn iddynt eu difetha.